# Cod Ymarfer Addysg, Gwybodaeth ac Arweiniad Gyrfaol

Cod Ymarfer 04: 2024 Fersiwn 1.1

Daw i rym: 6 Tachwedd 2025

| Dyddiadau | Yn disodli | Disgrifiad o'r Newid |
|---|---|---|
| 6 Tachwedd 2025 | 2024 Fersiwn 1.0 | Newidiadau bach i rolau a theitlau yn sgil yr ailstrwythuro. |
| 1 Chwefror 2020 | Fersiwn 2018. | Adlewyrchu newidiadau i strwythurau adrodd ac adroddiadau trwy'r Cynllun Ffioedd a Mynediad yn lle'r Matrix Quality Standard. |
| 1 Chwefror 2024 | 2018 Fersiwn 1.1 | Diweddariad Cyfnodol. Dim newidiadau o bwys |

| Perchennog y Ddogfen | Cymeradwywyd Gan | Dyddiad Cymeradwyo | Amlder Adolygu |
|---|---|---|---|
| Llwyddiant Myfyrwyr: Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd | Pwyllgor Rheoliadau ac Achosion Arbennig y Senedd. | 6 Tachwedd 2025 | Bob tair blynedd. |

Sylwer: Mewn amgylchiadau eithriadol, ac yn amodol ar gymeradwyaeth Cadeirydd Pwyllgor Rheoliadau ac Achosion Arbennig y Senedd gall cyfrifoldebau a neilltuir i Ysgolion, Penaethiaid Ysgol, Swyddogion Ysgol neu Bwyllgorau Ysgol yn y Rheoliadau hyn gael eu mabwysiadu gan y Coleg, Pennaeth y Coleg, Swyddogion y Coleg neu Bwyllgorau’r Coleg yn y drefn honno, fel y bo’n briodol.

# Cod Ymarfer Addysg, Gwybodaeth ac Arweiniad Gyrfaol

Mae'r Cod hwn yn amlinellu'r ddarpariaeth o ran arweiniad gyrfaol sydd ar gael i fyfyrwyr.

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

---

## Rhagarweiniad

1. Mae Addysg, Gwybodaeth ac Arweiniad Gyrfaol yn cynnwys amrywiaeth o weithgareddau a gwasanaethau sy’n ymwneud â sgiliau cyflogadwyedd a datblygiad personol, ymchwilio a chynllunio gyrfaol, rheolaeth yrfaol, dysgu seiliedig ar waith a phrofiad sy’n berthnasol i’r gwaith. Mae Addysg, Gwybodaeth ac Arweiniad Gyrfaol yn rhan greiddiol o’r profiad addysgu a dysgu, ac mae hefyd yn effeithio ar flaenoriaethau sefydliadol allweddol, megis recriwtio, dal gafael ar fyfyrwyr, cyflogadwyedd, profiad gwaith, ehangu cyfranogiad ac ehangu mynediad.
2. Mae gweithgareddau Addysg, Gwybodaeth ac Arweiniad Gyrfaol yn cefnogi sawl un o’r amcanion strategol a geir yng Nghynllun Strategol y Brifysgol, yn y Strategaeth Addysgu a Dysgu, ac yn y strategaethau ar gyfer Cyflogadwyedd, Ehangu Mynediad, Ymgysylltu Dinesig a Chynaliadwyedd, ac yn y Cynlluniau Ffioedd a Mynediad. Mae Addysg, Gwybodaeth ac Arweiniad Gyrfaol hefyd yn rhan o godau ymarfer eraill, gan gynnwys y cod ymarfer ar ddysgu ar leoliad a’r cod ymarfer sy’n ymwneud â chymeradwyo rhaglenni.

## Amcanion Addysg, Gwybodaeth ac Arweiniad Gyrfaol ym Mhrifysgol Bangor

3. Trwy amrywiaeth o brosesau, profiadau a chyfleusterau, bwriedir i Addysg, Gwybodaeth ac Arweiniad Gyrfaol wneud y canlynol:

   - Cefnogi myfyrwyr a graddedigion i ddatblygu offer effeithiol i reoli eu proses gydol oes eu hunain o ran datblygiad personol a rheoli gyrfa.
   - Galluogi myfyrwyr a graddedigion i baratoi at y dyfodol a gwneud penderfyniadau effeithiol a hynny’n seiliedig ar ddealltwriaeth glir ohonynt eu hunain mewn perthynas â’r cyfleoedd sydd ar gael iddynt ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.
   - Galluogi myfyrwyr a graddedigion i adnabod, datblygu a chaffael y sgiliau cyflogadwyedd sydd eu hangen arnynt i gystadlu'n llwyddiannus yn y farchnad lafur i raddedigion.
   - Galluogi myfyrwyr a graddedigion i ystyried a datblygu sgiliau sy’n gysylltiedig â menter a chyflogadwyedd, a chefnogi myfyrwyr a graddedigion sy’n dymuno ystyried entrepreneuriaeth.
   - Hybu menter ac entrepreneuriaeth ymysg myfyrwyr a graddedigion er mwyn hwyluso’r ffordd i fyfyrwyr a graddedigion ddechrau busnesau newydd. Cefnogi datblygiad a ffyniant economaidd y rhanbarth trwy ddarparu a chyflenwi myfyrwyr a graddedigion

medrus, sy'n wybodus ac yn barod ar gyfer gwaith.
- Cefnogi ymrwymiad Prifysgol Bangor i feithrin cydweithrediad gyda diwydiant yn rhanbarthol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.

4. Er mwyn cyflawni ei hamcanion, bydd y ddarpariaeth Addysg, Gwybodaeth ac Arweiniad Gyrfaol fel a ganlyn:

- **Yn ddiduedd**: Rhoddir cyngor, arweiniad a gwybodaeth yn ddiduedd, i alluogi'r myfyrwyr i wneud eu dewisiadau personol eu hunain.
- **Yn canolbwyntio ar y cleient**: Bydd cyngor, arweiniad a gwybodaeth yn canolbwyntio ar ofynion myfyrwyr / graddedigion unigol.
- **Yn gyfrinachol:** Cedwir cofnodion a gwybodaeth am y cleientiaid yn unol â gofynion y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data a'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.
- **Yn gydweithredol**: Caiff gweithgareddau Addysg, Gwybodaeth ac Arweiniad Gyrfaol eu datblygu a'u cyflwyno mewn partneriaeth gydweithredol â'r Gwasanaeth Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd, y colegau a'r ysgolion academaidd, Undeb y Myfyrwyr, myfyrwyr, graddedigion a phartneriaid allweddol eraill, gan gynnwys cyflogwyr ac asiantaethau eraill.
- **Yn hygyrch**: Caiff yr adnoddau a'r gweithgareddau eu datblygu a'u cynnig yn unol â rheoliadau hygyrchedd y Deyrnas Unedig a'r sefydliad, er mwyn caniatáu ac annog mynediad a chyfranogiad llawn.
- **Yn Ddwyieithog** (Cymraeg/Saesneg): Yn unol â Pholisi Iaith Gymraeg y Brifysgol, darperir holl wybodaeth, cyfathrebiadau ac adnoddau Prifysgol Bangor yn ddwyieithog. Mae apwyntiadau, gweithdai a digwyddiadau Cymraeg eu hiaith ar gael i ddiwallu'r galw gan fyfyrwyr a graddedigion.
- **Yn sicrhau ansawdd:** Caiff y gwasanaethau a'r gweithgareddau eu harchwilio'n fewnol ac yn allanol a sicrheir ansawdd trwy werthuso a bod â throsolwg rheolaidd. Yn ogystal, caiff gwasanaethau craidd o ran Addysg, Gwybodaeth ac Arweiniad Gyrfaol eu harchwilio'n ffurfiol drwy Safon Ansawdd Aelodaeth AGCAS (bob tair blynedd a'i hadolygu'n flynyddol).
- **Yn ddiffiniedig:** Caiff y ddarpariaeth Addysg, Gwybodaeth ac Arweiniad Gyrfaol a chanlyniadau arfaethedig hynny ei hyrwyddo i bob grŵp o gleientiaid (darpar fyfyrwyr, myfyrwyr presennol a graddedigion) yn defnyddio cyfathrebiadau ac adnoddau perthnasol, gan gynnwys prosbectws y Brifysgol, gwefannau, cylchlythyrau, taflenni, y cyfryngau cymdeithasol, digwyddiadau hyrwyddo, Cyswllt Gyrfa, a thrwy'r colegau a'r ysgolion.

## Cyflwyno Addysg, Gwybodaeth ac Arweiniad Gyrfaol

5. Caiff Addysg, Gwybodaeth ac Arweiniad Gyrfaol ei gyflwyno trwy amrywiaeth eang o brosesau a chyda grŵp amrywiol o bartneriaid. Caiff gwasanaethau a gweithgareddau cyflogadwyedd mewn perthynas ag Addysg, Gwybodaeth ac Arweiniad Gyrfaol eu darparu gan yr adran Llwyddiant Myfyrwyr: Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd. Fodd bynnag, caiff amrywiaeth eang o weithgareddau Addysg, Gwybodaeth ac Arweiniad Gyrfaol eu cynnal hefyd yn yr ysgolion a'r colegau academaidd trwy fentrau o dan arweiniad adrannau eraill yn y Brifysgol.

## Gwasanaethau Addysg, Gwybodaeth ac Arweiniad Gyrfaol

6. Llwyddiant Myfyrwyr: Mae'r gwasanaethau Addysg, Gwybodaeth ac Arweiniad Gyrfaol y mae'r adran Llwyddiant Myfyrwyr: Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd yn eu cynnig yn cynnwys addysg, cyngor ac arweiniad gyrfaol, menter ac entrepreneuriaeth, gwasanaethau i gyflogwyr, gwasanaethau i raddedigion, cefnogaeth gyda phrofiad gwaith a lleoliadau gwaith, datblygu a hyrwyddo gwaith gwirfoddol, cysgodi eraill wrth eu gwaith a swyddi rhan amser a swyddi i raddedigion.
7. Mae'r adran Llwyddiant Myfyrwyr: Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd yn darparu Addysg, Gwybodaeth ac Arweiniad Gyrfaol allgyrsiol mewn partneriaeth â'r ysgolion academaidd a'r colegau, gan gynnwys sesiynau cyflogadwyedd, paratoi ac adolygu lleoliadau gwaith, a chefnogaeth gyda digwyddiadau a mentrau sy'n canolbwyntio ar gyflogadwyedd.
8. Mae'r gwasanaethau Addysg, Gwybodaeth ac Arweiniad Gyrfaol a ddarperir gan yr adran Llwyddiant Myfyrwyr: Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd ar gael yn rhad ac am ddim i bob myfyriwr sydd wedi ymrestru ar gwrs ac sy'n gymwys i gael mynediad at wasanaethau Prifysgol Bangor, ac i raddedigion cyrsiau cymwys am hyd at dair blynedd ar ôl graddio.

**Darpariaeth sy'n Seiliedig ar Gwricwlwm**

9. Yn y cwricwlwm academaidd, caiff darpariaeth a deilliannau Addysg, Gwybodaeth ac Arweiniad Gyrfaol eu disgrifio trwy gyfrwng manylebau rhaglenni, nodweddion graddedigion a deilliannau dysgu.
10. Defnyddir data ynglŷn â pharodrwydd am yrfa i adolygu, datblygu a rhoi ffocws i Addysg, Gwybodaeth ac Arweiniad Gyrfaol o fewn y cwricwlwm.

**Swyddogaethau a Chyfrifoldebau**

11. Yr adran Llwyddiant Myfyrwyr: Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd sy'n rhan o'r Gyfarwyddiaeth Bywyd Myfyrwyr sy'n bennaf gyfrifol am Addysg, Gwybodaeth ac Arweiniad Gyrfaol. Caiff gwaith Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd ei arwain gan y Strategaeth Gyflogadwyedd sefydliadol a chan safonau proffesiynol y Deyrnas Unedig.

**Swyddogaeth y Sefydliad**

12. Bydd y Sefydliad yn gwneud y canlynol

   - Sicrhau bod adnoddau ar gael i gefnogi gofynion Addysg, Gwybodaeth ac Arweiniad Gyrfaol gan gydnabod rôl allweddol yr adran Llwyddiant Myfyrwyr: Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd o ran datblygu a gwella cyflogadwyedd ymhlith myfyrwyr ac graddedigion cymwys.
   - Datblygu targedau a meincnodau sefydliadol priodol ar gyfer darpariaethau a gwasanaethau Addysg, Gwybodaeth ac Arweiniad Gyrfaol.
   - Cefnogi a monitro gwasanaethau Addysg, Gwybodaeth ac Arweiniad Gyrfaol trwy strategaethau a chynlluniau cyflogadwyedd perthnasol, gan gynnwys Cynllun Strategol y Brifysgol, y Strategaeth Cyflogadwyedd, y Strategaeth Addysgu a Dysgu a'r Cynlluniau Ffioedd a Mynediad.
   - Sicrhau y caiff buddiannau Addysg, Gwybodaeth ac Arweiniad Gyrfaol eu cynrychioli

mewn fforymau mewnol priodol sy’n gwneud penderfyniadau er mwyn hyrwyddo Addysg, Gwybodaeth ac Arweiniad Gyrfaol ac er mwyn galluogi cydweithio agosach rhwng yr adran Llwyddiant Myfyrwyr: Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd a’r ysgolion a’r colegau academaidd ac Undeb y Myfyrwyr.

**Swyddogaeth yr adran Llwyddiant Myfyrwyr: Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd**

13. Llwyddiant Myfyrwyr: Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd:

- Darparu amrywiaeth eang o wasanaethau unigol i **fyfyrwyr a graddedigion** i ddatblygu, gwella a hwyluso mentrau i ddatblygu sgiliau. Yn eu plith mae Llwybr Llwyddiant Gyrfaoedd Bangor, rhaglenni interniaeth, cyfleoedd a hyrwyddir trwy borth ar-lein y myfyrwyr, cefnogi profiad gwaith wedi ei dargedu, menter ac entrepreneuriaeth myfyrwyr, a chydnabyddiaeth i rolau sy’n berthnasol i waith a hyfforddiant cysylltiedig.
- Gweithio gyda’r **ysgolion a’r colegau academaidd** i gefnogi a datblygu addysg briodol am yrfaoedd a darpariaeth ac adnoddau dysgu seiliedig ar waith fel rhan o ddarpariaeth cyflogadwyedd yr ysgol.
- Gweithio gyda'r **Swyddfa Gynllunio** i hyrwyddo, casglu, dadansoddi a lledaenu data sefydliadol ynghylch cyflogadwyedd, gan gynnwys parodrwydd am yrfa a'r arolwg Hynt Graddedigion.
- Sicrhau bod y Sefydliad, yr ysgolion a’r colegau academaidd a’r myfyrwyr yn derbyn yr wybodaeth ddiweddaraf am **dueddiadau o ran cyflogadwyedd a’r farchnad lafur i raddedigion**.
- Datblygu a chynnal **rhwydweithiau cynhwysfawr yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol** gyda gwasanaethau ac asiantaethau eraill sy’n darparu arweiniad.
- Mewn partneriaeth ag **adrannau eraill o fewn y Brifysgol sy’n ymwneud â chyflogwyr**, datblygu a chynnal cysylltiadau â chyflogwyr rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol, gan sicrhau bod eu hanghenion a’u safbwyntiau yn cael eu hystyried a’u cydnabod a’u bod yn dylanwadu ar y ddarpariaeth lle bo’n briodol.
- Cynnal cysylltiadau agos gydag **Undeb y Myfyrwyr** o ran y ‘profiad myfyrwyr’ yn ehangach, a hynny’n benodol mewn perthynas â darpariaeth profiad gwaith, cyfleoedd gwaith cyflogedig, rhaglenni gwirfoddoli a mynd ati ar y cyd i hyrwyddo pynciau’n ymwneud â chyflogadwyedd.
- Gweithio ar y cyd â **Gwasanaethau Proffesiynol** eraill i sicrhau bod Addysg, Gwybodaeth ac Arweiniad Gyrfaol yn mynd i’r afael â chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant - gan gefnogi, dathlu a hyrwyddo anghenion a dyheadau cymuned amrywiol y myfyrwyr.

**Swyddogaeth Ysgolion a Cholegau Academaidd**

14. Bydd yr ysgolion a’r colegau academaidd yn gwneud y canlynol:

- Nodi’r sgiliau cyflogadwyedd perthnasol sy'n ymhlyg o fewn manylebau rhaglenni a sicrhau bod y canlyniadau hyn yn cael eu gwneud yn glir i ddarpar fyfyrwyr, myfyrwyr presennol a myfyrwyr y dyfodol.
- Dynodi aelodau perthnasol o’r staff academaidd yn Arweinwyr Cyflogadwyedd i gadw

mewn cyswllt â'r adran Llwyddiant Myfyrwyr: Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd. Bydd yr aelod o'r staff yn bwrw golwg dros yr anghenion ac yn helpu i ddatblygu rhaglen gytunedig o weithgareddau mewnol a phwrpasol i ddatblygu sgiliau cyflogadwyedd a gwella canlyniadau graddedigion.

- Cefnogi anghenion myfyrwyr mewn perthynas ag Addysg, Gwybodaeth ac Arweiniad Gyrfaol trwy ddatblygu elfen sy'n ymwneud â gyrfaoedd/cyflogadwyedd ar eu gwefannau a thrwy ddolenni at adnoddau canolog priodol.
- Sicrhau, gyda chefnogaeth staff yr adran Llwyddiant Myfyrwyr: Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd bod y staff sy'n darparu Addysg, Gwybodaeth ac Arweiniad Gyrfaol yn yr ysgolion a'r colegau yn cael cyfleoedd datblygu a hyfforddiant priodol
- Cadw mewn cyswllt â'r adran Llwyddiant Myfyrwyr: Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd i ddarparu Addysg, Gwybodaeth ac Arweiniad Gyrfaol yn y modd gorau posib i'w myfyrwyr trwy weithgareddau cyflogadwyedd, adfyfyrio ac asesu sydd wedi eu hymgorffori.
- Cadw mewn cyswllt â rhanddeiliaid pwnc-benodol gan gynnwys partneriaid diwydiant, cyflogwyr a chyrff proffesiynol, i lywio a datblygu darpariaeth y cwricwlwm.
- Cefnogi'r adran Llwyddiant Myfyrwyr: Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd i gasglu ac adolygu data perthnasol, a defnyddio data i ddatblygu'r cwricwlwm.

**Swyddogaeth y Myfyrwyr**

15. Bydd disgwyl i fyfyrwyr:

- Gymryd cyfrifoldeb personol am eu cynlluniau gyrfaol eu hunain, gyda chefnogaeth darpariaeth Addysg, Gwybodaeth ac Arweiniad Gyrfaol y sefydliad sydd ar gael trwy eu hysgolion academaidd a'r adran Llwyddiant Myfyrwyr: Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd.
- Manteisio'n llawn ar y darpariaethau Addysg, Gwybodaeth ac Arweiniad Gyrfaol sydd ar gael trwy'r cwricwlwm a thu hwnt.
- Cymryd rhan mewn gwerthusiadau o'r gwasanaeth Addysg, Gwybodaeth ac Arweiniad Gyrfaol a darparu adborth lle bo'n briodol.
- Adfyfyrio ac adolygu eu cynnydd eu hunain drwy gyfrwng cofrestriad parodrwydd am yrfa ac offer ac adnoddau eraill sydd ar gael trwy CyswlltGyrfa, e.e. Y Llwybr Llwyddiant Gyrfa.

**Swyddogaeth Cyflogwyr a Phartneriaid Allanol**

16. Bydd y sefydliad yn gwneud y canlynol:

- Sicrhau bod y ddarpariaeth Addysg, Gwybodaeth ac Arweiniad Gyrfaol yn adlewyrchu datblygiadau a newidiadau yn y farchnad gyflogaeth fyd-eang, a hynny trwy gydweithredu'n agos â phartneriaid allanol, cyflogwyr a sefydliadau yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.
- Hwyluso a chynnal cysylltiadau gyda chyflogwyr a sicrhau eu mewnbwn i'r Brifysgol.
- Hwyluso'r ffordd i gyflogwyr ac eraill sy'n cynnig cyfleoedd roi gwybod am y cyfleoedd sydd ganddynt ym maes cyflogaeth, gwirfoddoli a phrofiad gwaith i gymuned y Brifysgol.
- Annog cyflogwyr a phartneriaethau allanol i gymryd mwy o ran yn y broses o

ddarparu Addysg, Gwybodaeth ac Arweiniad Gyrfaol er mwyn gwella mewnwelediadau i ddisgwyliadau ac anghenion cyflogwyr.
- Datblygu ffyrdd o gyfnewid gwybodaeth yn effeithiol ac o wella'r ddealltwriaeth rhwng cyflogwyr a staff sy'n darparu Addysg, Gwybodaeth ac Arweiniad Gyrfaol.
- Manteisio'n llawn ar brofiad gwaith, dysgu sy'n gysylltiedig â gwaith, menter ac entrepreneuriaeth, a hyrwyddo hynny i fyfyrwyr, staff a chyflogwyr.
- Gweithio gyda chyflogwyr a phartneriaid allanol i gaffael a lledaenu'r wybodaeth sydd ar gael am y farchnad lafur mewn perthynas â marchnadoedd lleol, cenedlaethol a rhyngwladol.

**Sicrhau Ansawdd**

17. Darperir Addysg, Gwybodaeth ac Arweiniad Gyrfaol yn unol â gofynion mewnol a chenedlaethol. Bydd y systemau sicrhau ansawdd yn cynnwys y canlynol:

- Datblygu a darparu gwasanaethau Addysg, Gwybodaeth ac Arweiniad Gyrfaol yn unol â safonau a pholisïau perthnasol a chodau ymarfer cysylltiedig yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd.
- Darparu gwasanaethau Addysg, Gwybodaeth ac Arweiniad Gyrfaol yn unol â safonau AGCAS, a chyrff proffesiynol perthnasol eraill.
- Adolygu gwasanaethau Addysg, Gwybodaeth ac Arweiniad Gyrfaol yn ystod archwiliadau sefydliadol ac archwiliadau mewnol ac archwiliadau i adrannau gwasanaeth.

**Monitro a Gwerthuso**

18. Caiff gwasanaethau a gweithgareddau Addysg, Gwybodaeth ac Arweiniad Gyrfaol eu monitro a'u gwerthuso trwy nifer o fecanweithiau, gan gynnwys:

- Yr adran Llwyddiant Myfyrwyr: Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd yn cynnal gwerthusiad rheolaidd o'r gwasanaethau craidd o ran Addysg, Gwybodaeth ac Arweiniad Gyrfaol gan adrodd ynghylch data am y defnydd a wneir o'r gwasanaeth ac am fesurau effaith ac am adborth y cleientiaid, gan wneud hynny trwy gyfrwng y rheolwr llinell, pwyllgorau perthnasol a'r Bwrdd Gweithredol yn ôl yr angen.
- Adrodd yn flynyddol ar wasanaethau a darpariaethau Addysg, Gwybodaeth ac Arweiniad Gyrfaol yn erbyn y targedau a bennir yn y Cynllun Ffioedd a Mynediad y mae'r Brifysgol yn ei ddarparu i Medr.